Polisi Gwrth Fwlio Technolegol

Mae bwlio technolegol (cyberbullying) yn ddull difrifol o fwlio.

Diffiniad

Gwelir bwlio technolegol fel gweithred fwriadol ac ymosodol gan unigolyn neu gan griw sy'n defnyddio cyswllt electroneg, yn gyson tros amser, yn erbyn unigolyn nad yw'n medru ei amddiffyn ei hun.

Gall bwlio technolegol gynnwys defnydd amhriodol o'r canlynol:-

- Neges destun;
- Llun/clip-fideo;
- Galwadau ar ffôn symudol;
- E-bostio;
- Sgwrsio 'chat-room';
- Rhannu ffeiliau trwy gyfrwng Bluetooth;
- Safweoedd.

Disgwyliadau'r ysgol

Mae'r ysgol yn sicrhau fod;

- rhaglenni gwaith a chwricwlwm technoleg gwybodaeth yn hybu ac yn pwysleisio dilyniant a datblygiad cadarn a diogel mewn meysydd technoleg gyfathrebol;
- rhaglen o hyfforddiant ar arferion da yn y maes yn weithredol ar gyfer pob aelod o staff ysgol;
- dulliau rhwystro mynediad yn weithredol, a bod y rhain yn cael eu diweddaru'n gyson;
- goruchwyliaeth ddigonol a monitro'r defnydd a wneir o'r rhyngrwyd ac e-bost;
- fod y polisi a'r ddogfennaeth gysylltiedig yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yn unol â threfn adolygu gytunedig yr ysgol.
- fod polisi penodol ynglŷn â ffonau symudol yn weithredol.

Bydd disgyblion yn;

- parchu eraill trwy ddefnyddio'r dechnoleg yn gyfrifol ;
- derbyn cyfrifoldeb am ddiogelwch a chyfrinachedd y sustemau o fewn yr ysgol.

Bydd rhieni yn;

- llawn ymwybodol o bolisi ac arferion da'r ysgol, gan godi eu hymwybyddiaeth o ddatblygiadau cyfoes yn y maes a hawliau'r ysgol i fonitro'r defnydd a wneir gan eu plant o dechnoleg gyfathrebol.
- rhoi goruchwyliaeth ddigonol a monitro'r defnydd a wneir o'r rhyngrwyd ac e-bost;

Bydd yr ysgol yn ymateb i ddisgybl sydd yn bwlio drwy ffyrdd electroneg yn unol â pholisi gwrth fwlio'r ysgol.